

# Cyngor Abertawe



## Adroddiad Blynyddol y Gymraeg 2018 - 2019

## **CYNNWYS**

1. Cyflwyniad a Chefndir.....
2. Trosolwg o 2018-19 .....
3. Gweithredu'r safonau .....

  - Safonau Cyflwyno Gwasanaethau
  - Safonau Llunio Polisiâu
  - Safonau Gweithredol
  - Safonau Hyrwyddol
  - Safonau Cadw Cofnodion

4. Addysg Gymraeg.....

## **ATODIADAU**

- a) Monitro Cyngor Abertawe yn 2017-2018 gan Gomisiynydd y Gymraeg.
- b) Cwynion ynghylch cydymffurfio â'r safonau

## 1. Cyflwyniad a Chefnidir

Dyma'r trydydd Adroddiad Blynyddol ers i'r safonau ddod i rym. Mae'n cynnig trosolwg o'r gweithgarwch dros gyfnod o 12 mis hyd at 31 Mawrth 2019, ac arfarniad o sefyllfa'r awdurdod mewn perthynas â gweithredu'r safonau. Mae'r atodiadau'n cynnig rhywfaint o fanylion parthed rhoi'r safonau ar waith yn benodol yn Abertawe.

Ers 30 Mawrth 2016, mae'n ddyletswydd statudol ar yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru i gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg a osodwyd gan y Mesur drwy is-ddeddfwriaeth (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg).

Rhestrir y safonau a roddwyd i Ddinas a Sir Abertawe mewn hysbysiad cydymffurfio – Is adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae copi o'r safonau hyn ar gael ar wefan gyhoeddus y cyngor yn: <https://www.swansea.gov.uk/cymraeg> a <https://www.abertawe.gov.uk/cymraeg>

Yr hysbysiad hwn, y cytunwyd arno â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, yw'r ddogfen gyfredol sy'n llywodraethu ein cydymffurfriad.

Bwriad y safonau yw:

- sicrhau nad yw sefydliadau'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a
- hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg (a'i gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd pob dydd).

Nod y safonau yw:

- ei gwneud hi'n eglur i sefydliadau beth yw eu dyletswyddau o ran y Gymraeg
- ei gwneud hi'n fwy eglur i siaradwyr Cymraeg pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg
- sicrhau mwy o gysondeb o ran gwasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd.

Mae'n ofynnol i Abertawe gydymffurfio â **163 o safonau ar draws 5 categori** fel y dangosir yn nhabl 1 isod:

Tabl 1: Safonau i Gyngor Abertawe gydymffurfio â hwy

Cyngor Abertawe		
	Categoriâu	Nifer o safonau
1	Safonau Cyflwyno Gwasanaethau	86
2	Safonau Llunio Polisiâu	16
3	Safonau Gweithredol	51
4	Safonau Hyrwyddol	2
5	Safonau Cadw Cofnodion	8
	<b>Total</b>	<b>163</b>

## 2. Trosolwg o 2018-2019

Parhaodd y cynnydd da a wnaed wrth roi Safonau'r Gymraeg ar waith yn ystod y flwyddyn, ac mae adborth cyffredinol yn dangos bod swyddogion yn fwy hyddysg ac yn llawer mwy ymwybodol o'r angen am gydymffurfio nag yr oeddent yn flaenorol.

Mae'r awdurdod wedi parhau i ymrwymo i ddigwyddiad tridiau blynyddol, sef "CROESO", i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ar y penwythnos agosaf at 1 Mawrth (gweler adran 3ch: Safonau Hyrwyddol i gael mwy o fanylion am ddigwyddiad eleni).

Mae'r gwasanaeth Cymraeg ar brif rif ffôn y cyngor yn boblogaidd gyda siaradwyr Cymraeg, ac mae nifer o alwyr wedi dweud pa mor dda yw gallu siarad Cymraeg yn gyntaf wrth gysylltu â'r awdurdod dros y ffôn. Yn ychwanegol, mae llawer o gysylltiadau da yn cael eu gwneud rhwng ein galwyr Cymraeg rheolaidd a'n tîm o bobl sy'n trin galwadau Cymraeg. Mae nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg hefyd wedi dewis defnyddio llinellau ffôn adrannol Cymraeg (gweler adran 3a, Safonau Cyflwyno Gwasanaethau, am fanylion).

Mae canolbwyntio ar safonau Cyflwyno Gwasanaethau yn parhau yn flaenoriaeth, oherwydd y rhain sy'n fwyaf niferus (86) ac yn fwyaf gweladwy i'r cyhoedd. Mae'r gwaith ar y Safonau Gweithredol hefyd yn parhau, yn enwedig am eu bod yn berthnasol i'r gofynion mewn perthynas â gweithlu'r awdurdod.

## 3. Gweithredu'r Safonau

Y Tîm Rheoli Corfforaethol sy'n gyfrifol am ein cydymffurfiad â Safonau'r Gymraeg, a bydd Penaethiaid Gwasanaeth yn rhoi eu gweithdrefnau lleol eu hunain ar waith.

Mae hyrwyddwr y Gymraeg ym mhob maes gwasanaeth sy'n brif ffynhonnell gwybodaeth berthnasol (dwyffordd) i'w meysydd a'u harferion gwaith.

Ein Rheolwr Gwasanaeth Cwsmeriaid, sy'n siaradwr Cymraeg, yw'r pwynt cyswllt cyffredinol ar gyfer materion iaith Gymraeg a godir yn allanol - boed hynny gan unigolion, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg neu rywle arall. Mae hi hefyd yn darparu cyngor ac arweiniad yn fwenol ynghylch gweithredu'r safonau a chydymffurfio â hwy.

Mae gwybodaeth ddiffiniol a phenderfyniadau am y safonau wedi eu cyfleu i'r Hyrwyddwyr ac hefyd i bob Pennaeth Gwasanaeth - sydd â chyfrifoldeb dros gydymffurfio yn eu maes eu hunain.

Ym mis Tachwedd 2018, derbyniodd yr awdurdod gasgliadau Adroddiad Sicrwydd 2017-18 Comisiynydd y Gymraeg, "Mesur o Lwyddiant", ac mae manylion casgliadau mewn perthynas â Chyngor Abertawe ar gael yn **Atodiad a**.

### Yr Uned Gyfieithu

Ers i'r uned symud i'r adran Gwasanaethau Cwsmeriaid yn Ebrill 2018, mae adolygiad o alw wedi cael ei gynnal ac mae ffyrdd newydd o weithio yn cael eu cyflwyno fel y gall gofynion cyfieithu gael eu trefnu a'u blaenoriaethu mewn modd effeithlon ar draws y Cyngor cyfan.

Mae gwella ymwybyddiaeth, cyfathrebu'n well a marchnata'r gwasanaeth yn dylanwadu'n gadarnhaol ac fe wnaiff cydweithio'n agosach â Meysydd Gwasanaeth i ddatblygu calendr

blynyddol ddatrys rhai o'r problemau a all godi ar rai adegau o'r flwyddyn pan fydd nifer o ddyddiadau cau'n cyd- daro. Os bydd yr Uned yn canfod na fydd yn gallu ateb y galw am waith cyfieithu, cywiro proflenni neu gyfieithu ar y pryd, byddant yn anfon y gwaith yn allanol at aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

Yn ystod 2018-19, cyfieithodd yr Uned Gyfieithu 3.25 miliwn o eiriau, sy'n gyfystyr â gostyngiad o 14.4% o'i gymharu â 2017-18. Mae'r galw am wasanaeth cyfieithu ar y pryd gan yr Uned mewn cyfarfodydd hefyd wedi gostwng yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a chafodd 148 o oriau eu cofnodi yn ystod 2018–19, gostyngiad o 13.7% ar y flwyddyn flaenorol. Mae cyfathrebu gwell rhwng yr Uned a Meysydd Gwasanaeth wedi sicrhau gwell dealltwriaeth ynghylch beth sydd angen ei gyfieithu, ac mae cynnydd yn y defnydd o ganllawiau hwylus ar gyfer eitemau llai yn fuddiol hefyd.

### **3a. Safonau Cyflwyno Gwasanaethau**

#### **Cyfeiriadau e-bost**

Ers mis Chwefror 2018, mae'r holl gyfeiriadau e-bost unigol ac adrannol wedi bod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg fel y gall preswylwyr sy'n siarad Cymraeg ac eraill gysylltu drwy ddefnyddio'r cyfeiriad Cymraeg. Disgwylir i staff roi eu cyfeiriad @swansea.gov.uk a'u cyfeiriad @abertawe.gov.uk yn eu llofnod e-bost. Yn ychwanegol, mae gan holl e-byst a gaiff eu hanfon yn allanol droednodyn dwyieithog awtomataidd sy'n cynnwys:

*Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni.*

*We welcome correspondence in Welsh and will deal with Welsh and English correspondence to the same standards and timescales.*

#### **Ffôn**

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, dewisodd 2343 o'r bobl a ffoniodd y Ganolfan Alwadau Gorfforaethol ddewis yr opsiwn i siarad â'r cyngor yn Gymraeg, sef 1.31% o'r 178,814 o'r holl alwadau a gafwyd.

Roedd nifer y cwsmeriaid a ddefnyddiodd wasanaethau Is-adran Refeniw a Budd-daliadau'r Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg dros y ffôn yn ystod y cyfnod adrodd yn 1565, gostyngiad bychan ar gyfanswm y flwyddyn flaenorol. Roedd cyfanswm y galwadau ffôn yn 133,704, felly roedd canran y galwadau Cymraeg yn 1.17%.

Mae llinellau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth y Gwasanaethau i Oedolion a'r Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd yn cynnwys dewis iaith Gymraeg penodol, ond nid yw eu systemau yn casglu data ynghylch galwadau. Ar sail eu profiad, dywed staff y byddant yn cael oddeutu 20 galwad ffôn bob mis yn Gymraeg.

Cyfwyd cyfanswm o 559 o alwadau i linell ffôn Gymraeg y gwasanaethau cyflogaeth yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19, sy'n gyfystyr â chynnydd o 200 galwad ar gyfanswm y flwyddyn flaenorol, sy'n dangos bod ein staff sy'n gallu siarad Cymraeg ac sy'n dysgu'r iaith yn mwynhau gallu defnyddio'r iaith a ffefrir ganddynt wrth gyfathrebu â'u cyflogwr.

Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor wrthi'n gweithredu system ffôn newydd. Efallai y bydd hyn yn effeithio rhywfaint ar ddata ystadegol 2019/20, ond dylai hyn fod wed'i ddatrys pan fydd y system ar waith yn llawn.

### **Mwy Na Geiriau: More than Just Words:**

Er bod Safonau'r Gymraeg yn berthnasol i holl feysydd gweithredu'r awdurdod, mae cyngor Abertawe hefyd yn ymrwymedig i ddatblygu Mwy na Geiriau / More than Just Words - fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ym meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.

### **Crynodeb o'r cynnydd**

- Mwy Na Geriau – fe wnaeth y fframwaith Strategol 3 blynedd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ddod i ben ym Mawrth 2019, yn dilyn Blwyddyn 3.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal gwerthusiad annibynnol o'r cynnydd sy'n digwydd.
- Nid oes angen unrhyw adroddiad gan Awdurdod Lleol eleni.
- Mae amcanion Blwyddyn 3 yn canolbwyntio ar Ddatblygu'r Gweithlu, a chânt eu cynnal gan Addysg Bellach, Gofal Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru a Llywodraeth Cymru - nid oes camau gweithredu ychwanegol ar gyfer Awdurdodau Lleol.
- Ceir ffocws yn Abertawe ar ymwreiddio newid fel rhywbeth sy'n arferol:
- Ymybyddiaeth o ofynion statudol/safonau'r Gymraeg – cynnig gweithredol, cyfateb adnoddau ag angen, gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd, cydweithio â darparwyr/Datblygu gweithlu Cyngor Abertawe.
- Trefniadau gwell o ran y pwynt cyswllt cyntaf i sicrhau y gellir gweithredu'r cynnig gweithredol yn ddyddiol.
- Gweithio rhanbarthol/cydweithredol trwy gyfrwng Fforwm Rhanbarthol Mwy Na ar gyfer Cwm Taf ac ABM (Bae'r Gorllewin)- cyfarfodydd chwarterol hyd at fis Medi 2019
- Mae cynllun newydd yn cael ei ddrafftio gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n bosibl y caiff ei lansio ym Mai/Mehefin 2019.
- Cyfarfodydd Hyrwyddwyr y Gymraeg Cyngor Abertawe
- Rhaglen Hyfforddiant, yn cynnwys Gwaith Cymraeg
- Cyflwyno DEWIS yn raddol
- Yr Uned Cyfieithu, sydd bellach yn rhan o'r Adran Adnoddau Corfforaethol

### **Blaenoriaethau**

- Gweithredu WCCIS i gefnogi'r cynnig gweithredol
- Recriwtio a chadw siaradwyr Cymraeg (rhugl)
- Diweddarau – asesiad o'r boblogaeth
- Rhaglen hyfforddiant / Datblygu'r gweithle yn gysylltiedig ag adolygiad o'r trefniadau
- Trefniadau rhanbarthol newydd i gynorthwyo i weithredu'r fframwaith diweddaredig
- Cymell/mentora i wella hyder a rhuglder staff

### **3bi Safonau Llundio Polisiâu**

Bydd yr holl benderfyniadau llunio polisiâu yn cael eu hystyried gan Asesiad Effaith Cydraddoldeb corfforaethol y cyngor, sy'n ystyried yr effeithiau posib y gallai'r fenter eu cael ar faterion Cydraddoldeb.

Er bod hyn yn seiliedig ar ofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (o dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010)), mae ein proses AEC benodol wedi ehangu'r paramedrau i gyfeirio'n benodol at y safonau a'n rhwymedigaeth i'w bodloni. Mae canllawiau atodol yn atgyfnerthu'r gofynion hyn. Er bod dealltwriaeth o'r safonau wedi cynyddu'n gyffredinol, mae angen esboniad a chymorth ar swyddogion yn aml wrth gwblhau elfen Gymraeg AEC. Un mater cyffredin yw methu â thrafod cynigion â siaradwyr Cymraeg yn y gymuned.

### **Safonau Llundio Polisiâu Atodol**

#### **3bii Cwynion**

Ymdrinnir â chwynion am y Gymraeg a/neu gwynion a dderbynnir yn y Gymraeg am unrhyw agwedd yn ymwneud â chyflwyno gwasanaethau'n unol â pholisi cwynion corfforaethol yr awdurdod a gyhoeddir ar wefan allanol y cyngor <https://www.swansea.gov.uk/cymraeg>

Yn ystod y cyfnod adrodd, 1 Ebrill 2018 - 31 Mawrth 2019, cawsom ni 11 cwyn newydd drwy Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg o ran darparu gwasanaethau dan Safonau'r Gymraeg, a phedair cwyn yn uniongyrchol i'n hadran cwynion corfforaethol mewn perthynas â'r Gymraeg.

Dylid nodi y caiff cwynion sy'n dod o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg eu prosesu'n unol â safonau ac amserlenni'r swyddfa ei hun, sy'n cael eu blaenoriaethu dros ein hamserau ymateb arferol (a gyhoeddir).

Dangosir manylion cwynion agored ynghyd â chwynion nad oeddent wedi'u cau ar ddiwedd y cyfnod adrodd blaenorol yn y tabl yn **Atodiad b**.

Caiff manylion y cwynion a oedd heb eu datrys ar ddiwedd y cyfnod adrodd eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

### **3c Safonau Gweithredol**

Mae Safonau Gweithredol yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg yn swyddogaethau mewnol sefydliad, gan gynnwys y berthynas rhwng yr awdurdod a'i weithwyr (gan gynnwys yn ystod recriwtio a phenodi), drwy:

- Annog a helpu staff i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg fel rhan o'u gwaith arferol, o ddydd i ddydd
- Darparu fframwaith cefnogol i staff er mwyn iddynt wella a datblygu eu sgiliau Cymraeg.

Fe wnaeth yr adran Adnoddau Dynol gomisiynu cyfieithiad o'r holl bolisiâu a'r gweithdrefnau, yn ôl cyfarwyddwyd y safonau, ac mae'r rhain ar gael i unrhyw aelod o staff sy'n gofyn amdanynt ac maent ar gael ar wefan y Cyngor hefyd.

Mae mynediad at feddalwedd i gynorthwyo staff wrth ddefnyddio'r Gymraeg (e.e. meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg MSOffice a chyfieithu awtomatig) ar gael fel ychwanegiad safonol.

Mae gan StaffNet adran Gymraeg <http://www.swansea.gov.uk/staffnet/welsh> sy'n cynnwys adnoddau ategol i staff sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith, gan gynnwys:

- Trosolwg o'r safonau, ynghyd â gwybodaeth am rôl Comisiynydd y Gymraeg
- Cwrs ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar-lein a ddatblygwyd i ddarparu rhywfaint o gyd-destun cymdeithasol a hanesyddol i'r Gymraeg a'i lle mewn cymdeithas fodern.
- Canllawiau hwylus sy'n cynnig arweiniad cyflym i faes penodol yn y safonau, e.e:
  - galwadau ffôn
  - e-byst
  - trefnu cyfarfodydd
  - dylunio arwyddion
  - gwasanaethau chyfieithu i'r Gymraeg
- Cyfieithiadau Safonol sydd wedi'u hehangu yn 2018/19 ac sydd bellach yn chwiliadwy yn Staffnet:
  - i helpu i lunio gwybodaeth safonol sydd â darnau bychan o wybodaeth amrywiol, e.e.
  - dyddiadau, amserau, lleoliadau
  - negeseuon awtomatig (allan o'r swyddfa)
  - arwyddion safonol *ad hoc*
- Arweiniad i gyfryngau cymdeithasol dwyieithog - rheolau ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau a gwybodaeth arall ar Twitter, Facebook a chyfryngau cymdeithasol eraill.
- Manylion gwersi Cymraeg a sesiynau ymarfer, gan gynnwys cyrsiau allanol ar wefan <http://www.swansea.ac.uk/learnwelsh/>
- Digwyddiadau cymdeithasol allanol rheolaidd drwy wefan Menter Iaith Abertawe
- Hyfforddiant yn y Gymraeg i staff - i staff rheng flaen i ddechrau mewn adrannau lle nodwyd bod diffyg siaradwyr Cymraeg.
- Manylion hyrwyddwyr y Gymraeg mewn meysydd gwasanaeth

#### **Staff usage of Welsh resources on Staffnet**

Cafodd tudalennau adnoddau Cymraeg y fewnwyd i staff (Staffnet) eu gweld 8467 o weithiau rhwng 1 Ebrill 2018 a 30 Mawrth 2019.

Gellir gweld y bum dudalen fwyaf poblogaidd yn y tabl isod:



<b>Tudalen ar Staffnet (1 Ebrill 2018 - 30 Mawrth 2019)</b>	<b>Sawl gwaith y gwelwyd pob tudalen</b>
/staffnet/welshtranslations	2484
/staffnet/learnwelsh	860
/staffnet/article/43626/7-essential-Welsh-checks-YOU-need-for-your-job-story	789
/staffnet/welshguides	785
/staffnet/requestforwelshtranslation form	716

Hefyd cafwyd:

- 1040 o chwiliadau yn Staffnet e.e. am 'Get something translated into Welsh' a 'Welsh language'
- 140 clic at adnoddau allanol yn ymwneud â'r Gymraeg, er enghraifft, saysomethinginwelsh.com a learnwelsh.cymru

### Staff a Sgiliau Cymraeg

Gellir gweld data a ddarparwyd gan staff (o 31 Mawrth 2019) ac a gedwir ar y system yn y tablau canlynol:

	<b>Yn deall Cymraeg llafar</b>	<b>Yn siarad Cymraeg</b>	<b>Yn darllen Cymraeg</b>	<b>Yn ysgrifennu Cymraeg</b>	<b>Yn dysgu Cymraeg</b>	<b>Yn barod i'w defnyddio fel rhan o'ch gwaith</b>
Ydy	234	178	265	251	165	342
Nac ydy	38	30	30	29	29	238
Heb Nodi	467	531	444	459	535	110
Wedi dewis peidio â dweud	0	0	0	0	0	49
Cyfanswm	739	739	739	739	739	739

### Swyddi Newydd a Gwag

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o nifer y swyddi newydd neu wag a hysbysebwyd gan yr awdurdod ac mae'n dangos lefelau'r sgiliau Cymraeg y mae eu hangen ar gyfer y rôl. Lefel 1 yw'r lefel fwyaf sylfaenol o ddealltwriaeth a Lefel 5 yw'r un fwyaf datblygedig.

<b>Lefel y sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol</b>	<b>Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd</b>
Lefel 1	188
Lefel 2	5
Lefel 3	0
Level 5	1

Dim Angen	158
Dymunol	54
I'w Ddysgu	2

### Hyfforddiant ar gyfer Staff

Cynhaliwyd yr hyfforddiant dilynol yn ystod y cyfnod adrodd:

#### **Cwrs Blasu Cymraeg Gwaith Ar-lein**

Cwrs 10 awr rhad ac am ddim sy'n cyflwyno cyfarchion ac ymadroddion cyffredin

Niferoedd ym mis Ionawr 2019

Wedi cofrestru ar y cwrs: 39

Wedi cwblhau'r cwrs: 1

Heb gychwyn y cwrs: 15

Wrthi'n dilyn y cwrs ar y pryd: 23

#### **Cwrs Mynediad (ariennir gan y Cyngor)**

Cwrs ar lefel dechreuwr dros gyfnod o 2 flynedd

24 o gyfranogwyr yn y lle cyntaf

14 wedi rhoi'r gorau iddi

Bwriedir cynnal cwrs ail flwyddyn ar gyfer y 10 cyfranogwr sy'n weddill

Bwriedir lansio cwrs blwyddyn gyntaf newydd

#### **Cwrs Sylfaen (Gwaith Cymru – ariennir gan y Llywodraeth)**

Cwrs ar lefel sylfaen ar gyfer oedolion i helpu i ehangu sgiliau o lefel dechreuwr

10 o gyfranogwyr yn y lle cyntaf

7 wedi rhoi'r gorau iddi

1 yn gofyn am gael parhau

#### **Cwrs Mynediad (Gwaith Cymru – ariennir gan y Llywodraeth)**

Cwrs Cymraeg Dwys ar gyfer Dechreuwr

26 o gyfranogwyr yn y lle cyntaf

17 wedi rhoi'r gorau iddi neu gwrthodwyd iddynt barhau i gyfranogi

4 wedi parhau i gyfranogi – ond nid oedd nifer ddigonol o gyfranogwyr i redeg y cwrs

Mae'r Cyngor wrthi'n ystyried pam bydd staff yn rhoi'r gorau i gyfranogi mewn cyrsiau ac yn ceisio sefydlu dulliau o annog a chynorthwyo staff i barhau i gyfranogi mewn cyrsiau, yn ogystal â chynyddu'r niferoedd sy'n cofrestru ar gyfer cyrsiau. Mae ein Tîm Rheolwyr Corfforaethol yn ystyried sut gallwn ni barhau i gryfhau'r gwasanaeth Cymraeg a gwasanaethau iaith cyffredinol a gynigir gan y Cyngor trwy ddarparu hyfforddiant iaith sylfaenol ar gyfer staff rheng flaen, fel y cytunwyd yn ein 'Cynllun Corfforaethol Cyflwyno Abertawe Llwyddiannus a Chynaliadwy 2018/22.

### Cortynnau Gwddf/Bathodynau

Mae ein Hysbysiad Cydymffurfio yn mynnu y dylid rhoi cortynnau gwddf a bathodynau 'laith Gwaith' i staff derbynfa sy'n siarad Cymraeg er mwyn iddynt fod yn amlwg i aelodau o'r cyhoedd. Gall yr holl staff sy'n siarad Cymraeg gael cortyn gwddf "laith Gwaith" ac mae dysgwyr Cymraeg yn gallu gwisgo cortynnau gwddf "Dysgwr Cymraeg".

O ganlyniad, mae aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg wedi gallu adnabod siaradwyr eraill a dechrau sgysiau yn Gymraeg. Mewn rhai achosion, bu pobl yn gweithio gyda'i gilydd am

flynyddoedd heb sylweddoli hyn. O ganlyniad felly, mae mwy o gyfle am sgysiau anffurfiol (ac ehangach) yn Gymraeg, gan felly normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

### **Cyfathrebu â Staff**

Er bod negeseuon canolog yn cael eu hanfon i grwpiau o staff yn Saesneg (fel y caniateir gan y safonau), mae siaradwyr Cymraeg yn cysylltu â'i gilydd yn gynyddol drwy e-bost neu dros y ffôn yn Gymraeg. The introduction of Skype for Business has also meant that staff can instant message other welsh speakers to practice their written welsh as well in a more informal setting, giving them the confidence and development opportunity to practice and improve

Gyda phwyslais cynyddol ar weithio "Hyblyg", mae llecyn hyblyg newydd yn cael ei ddatblygu. Bydd un rhan ohono wedi'i neilltuo ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg fel y gallant eistedd gyda'i gilydd os byddant yn dymuno hynny a siarad Cymraeg â'i gilydd.

### **Cyfarfodydd**

Yn ystod cyfarfodydd mewnol, yn enwedig rhai o natur dra ffurfiol, mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd wedi'i drefnu ymlaen llaw ar gael i'r bobl sy'n bresennol sydd am gyfrannu yn Gymraeg.

Wrth gwrdd ag asiantaethau allanol sydd am drafod â'r awdurdod drwy gyfrwng y Gymraeg, lle bynnag y bo modd (a chyda rhybudd ymlaen llaw), byddai siaradwyr Cymraeg cymwys yn mynd i'r cyfarfod ar ran yr awdurdod er mwyn gallu cynnal cymaint o'r cyfarfod â phosib yn Gymraeg.

### **Amlygrwydd**

Mae'r holl fentrau uchod wedi cynyddu a chryfhau amlygrwydd yr iaith ar draws y mwyafrif o weithrediadau meysydd, gan annog ei defnydd yn anffurfiol ac mewn cyd-destun gwaith.

### **3ch Safonau Hyrwyddol**

Fe wnaeth yr Awdurdod barhau â'r digwyddiad "CROESO" a gynhelir yn flynyddol i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, a gynhaliwyd ar 1-2 Mawrth 2019.

Roedd y ddigwyddiad rhad ac am ddim ac roedd yn cynnwys llawer o ddigwyddiadau poblogaidd. Dro ddau ddiwrnod y digwyddiad, roedd 11 o blith y 23 perfformiad ar y llwyfan yn Gymraeg, ac fe wnaeth cyflwynwyr y llwyfan gyhoeddi'n ddwyieithog ar y ddau ddiwrnod. Cafwyd cyflwyniadau gan gogyddion dwyieithog yn y Babell Arddangosiadau Coginion, a chawsant eu cyflwyno'n ddwyieithog gan gyflwynydd radio. Roedd y cardiau ryseitiau a roddwyd i'r gynulleidfa yn ddwyieithog hefyd.

Ym Mhabell Cwtch, cafwyd sesiynau adrodd straeon dwyieithog a llecyn chwarae meddal oedd â staff oedd yn siarad Cymraeg. Roedd y babel hefyd yn cynnwys stondinau gwybodaeth gan y grwpiau canlynol:

- Menter Iaith Abertawe
- Merched y Wawr
- Cymraeg i Blant
- Siop Tŷ Tawe

Yn ychwanegol, roedd y bws Celf a Chrefft yn cynnig celfyddydau â themâu Cymreig yn ddwyieithog, ac roedd diddandwyr stryd yn siarad Cymraeg ag ymwelwyr hefyd. Roedd y ddau lwyfan hefyd yn cynnwys cymysgedd o berfformiadau Cymraeg a rhai â themâu Cymreig. Roedd y digwyddiad mor llwyddiannus, rydym ni bellach yn credu y bydd yn rhaid i ni ystyried ehangau rhai rhannau, megis pabell Cwtch, ar gyfer 2020.

### 3.d Addysg Gymraeg

Mae datblygu'r Gymraeg yn yr ardal a thu hwnt yn y dyfodol yn gysylltiedig mewn ffordd sylfaenol ag Addysg Gymraeg, ac ymdrinnir â'r agwedd hon yn benodol yng Nghynllun Addysg Gymraeg y cyngor

Mae 11 ysgol gynradd Gymraeg sy'n bwydo dwy ysgol uwchradd – Ysgol Gyfun Gŵyr ac Ysgol Gyfun Bryn Tawe.

Caiff nifer y disgyblion sy'n mynychu sefydliadau addysg Gymraeg yn y tri grŵp oedran, a chanrannau cyffredinol pob grŵp oedran y mae'r ffigurau hyn yn eu cynrychioli, eu hamlinellu yn y tablau isod. Maent yn dangos bod nifer y myfyrwyr sy'n derbyn addysg Gymraeg a'r ganran gyffredinol yn parhau i gynyddu.

#### 2018-2019

Cofrestrau ysgolion	Cyfanswm ffrydiau Cymraeg a Saesneg	Nifer y disgyblion mewn darpariaeth Gymraeg	Canran y disgyblion mewn ffrydiau Cymraeg
Cynradd	22147	3306	<b>14.9%</b>
B7-11	12246	1503	<b>12.3%</b>
B12-Y13	1318	273	<b>20.7%</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>35711</b>	<b>5082</b>	<b>14.2%</b>

#### 2017-2018

Cofrestrau ysgolion	Cyfanswm ffrydiau Cymraeg a Saesneg	Nifer y disgyblion mewn darpariaeth Gymraeg	Canran y disgyblion mewn ffrydiau Cymraeg
Cynradd	22383	3271	14.6%
Y7-11	12210	1428	11.7%
Y12-Y13	1317	280	21.3%
<b>Cyfanswm</b>	<b>35910</b>	<b>4979</b>	<b>13.9%</b>

Mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf, enillodd dros 89.1% o ddisgyblion raddau A\*-C yn 2018, ac mae'r niferoedd sy'n dewis y pwnc wedi cynyddu'n gyson yn y chwe blynedd hyd at 2018.

Mewn TGAU Cymraeg Ail Iaith (cwrw llawn), enillodd dros 85.7% raddau A\*-C yn 2018, ac mae'r niferoedd sy'n dewis y pwnc wedi cynyddu yn y saith mlynedd ers 2012 o 239 o ymgeiswyr (9.2%) i 863 o ymgeiswyr (36.8%) yn 2017. Mae'r cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr yn rhannol oherwydd y bwriad i ddileu opsiwn y cwrs byr yn y pwnc hwn, a bydd yr holl ymgeiswyr yn dilyn y cwrs llawn o 2019.

Mae perfformiad yn y Gymraeg hefyd yn gryf yng nghyfnodau allweddol 2 a 3.

Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae canran y disgyblion ym Mlwyddyn 6 sy'n cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Cymraeg Iaith Gyntaf wedi gwella o 91.2% yn 2013 i 95.5% yn 2018. Y gwelliant cyfatebol ar gyfer Cymraeg Ail Iaith dros yr un cyfnod oedd o 67.5% i 78.2%.

Yng Nghyfnod Allweddol 3, mae canran y disgyblion ym Mlwyddyn 9 sy'n cyrraedd lefel 5 neu uwch mewn Cymraeg Iaith Gyntaf wedi gwella o 87.6% yn 2013 i 95.9% yn 2018. Y gwelliant cyfatebol ar gyfer Cymraeg Ail Iaith dros yr un cyfnod oedd o 73.1% i 83.3%.

Yn gyffredinol mae'r Gymraeg yn perfformio'n dda fel pwnc yn Abertawe.

### **3dd Safonau Cadw Cofnodion**

Mae'r safonau hyn yn ymwneud â sicrhau bod bod yr awdurdod yn cydymffurfio â'r safonau wrth ymdrin â data, ei gadw ac adrodd amdano, i ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r safonau. Mae hyn yn cynnwys llunio'r adroddiad blynyddol hwn.

**Atodiad b) Cwynion yngylch cydymffurfio â'r safonau 2018-2019**

Cyf.	Cwyn	Dyddiad Derbyn	Ymateb	Cam Gweithredu Diwethaf	Statws
CSG311	Ateb Saesneg i e-bost Cymraeg ei iaith	15/1/2018	Dyweddodd CA bod y swyddog wedi ymateb yn ddwyieithog yn wreiddiol, ond yna defnyddiodd y Saesneg, oherwydd roedd yn cael yr argraff bod hynny'n dderbyniol	Cadarnhaodd CyG bod angen dilyn y 4 cam gorfodi canlynol: Y broses ar gyfer ymateb i ohebiaeth Gymraeg a chanllawiau ar gyfer staff Gwella ymwybyddiaeth ymhlith staff Ymddiheuro'n ffurfiol i'r achwynnydd Darparu tystiolaeth bod camau 1-3 wedi cael eu cwblhau	<b>Cwblhawyd</b>  Cwblhawyd yr holl gamau gweithredu
CSG318	Nid oedd Meteri Parco yn trin ieithoedd yn gyfartal oherwydd roedd yn rhaid pwyso botwm i gyrchu'r Gymraeg	19/06/2018	Cadarnhaodd CA bod hynny'n wir yn achos yr holl feteri parcio	Cadarnhaodd CyG bod angen camau gorfodi	<b>Cwblhawyd</b> Newidwyd y meteri parcio i sicrhau y ceir y dewis Cymraeg yn gyntaf o 17/6/19
CSG352	Dim ymateb i e-bost Cymraeg	27/6/2018	Hysbysodd CA nad oedd ymatebion wedi'u derbyn mewn unrhyw un o'r ddwy iaith o bosibl oherwydd nifer y negeseuon oedd yn cael eu hanfon i'r cyfeiriad hwn.	Cadarnhaodd CyG bod angen dilyn y camau gorfodi canlynol: Mae'n rhaid i CA weithredu camau i sicrhau bod gohebiaeth Gymraeg yn cael ei hateb a darparu tystiolaeth ddigonol i CyG i ddangos bod hyn wedi cael ei gyflawni.	<b>Parhaus</b>  Mae angen i CA gyflawni'r camau gweithredu nesaf erbyn 1/8/19
CSG437	Arwydd 'dim mynediad' wedi'i gamsillafu yn Gymraeg a maint y ffont yn wahanol yn y ddwy iaith	23/10/2018	Hysbysodd CA fod yr arwydd wedi'i osod ar frys ac wedi'i ysgrifennu â llaw, ond cafodd ei dynnu yn syth pan gafwyd cwyn amdano ac atgoffwyd y	Ymatebodd CyG gan ddweud eu bod yn fodlon â'r camau oedd wedi cael eu gweithredu ac y byddai ymchwilio i'r mater	<b>Cwblhawyd</b>  Nid oes angen ymchwilio na gweithredu ymhellach

			swyddog am safonau'r Gymraeg	yn ymateb gormodol.	
CSG470	Dogfen Ymgynghorol Ysgol Gynradd Felindre	11/12/2018	Anfonwyd llythyr gan CA yn gofyn am eglurhad ychwanegol.	Disgwylir ymateb gan CyA	<b>Parhaus</b>
CSG482	Nid yw'r Porth Cynllunio yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg.	09/01/2019	Dyweddod CA nad oedd yn cytuno â'r cwynio na godwyd oherwydd ni wnaeth y profion a wnaed ddangos unrhyw anghysonderau.	Disgwylir ymateb gan CyA	<b>Parhaus</b>
CSG484	Dim ond un unigolyn yn ateb galwadau i'r llinell Gymraeg, galwad heb ei ateb yn y pwynt cyswllt cyntaf a llythyrau Saesneg wedi'u derbyn	10/01/2019	Cadarnhaodd CA yn ei ymateb i'r dystiolaeth ei fod yn cytuno â rhai elfennau o'r cwyn ond yn anghytuno â rhai.	Disgwylir ymateb gan CyA	<b>Parhaus</b>
CSG457	Mae'n ofynnol i bwysu 'Cymraeg' i gyrchu'r wefan yn Gymraeg	21/01/2019	Dyweddod CA bod ganddynt wefan Gymraeg ar wahân, <a href="http://www.abertawe.gov.uk/preswylwyr">www.abertawe.gov.uk/preswylwyr</a>	Cadarnhaodd CyG nad ymchwilir ymhellach i'r mater.	<b>Cwblhawyd</b> Nid oes angen gweithredu ymhellach
CSG492	Arwydd Cymraeg wedi'i gamsillafu	28/01/2019	Anfonwyd tystiolaeth yn nodi bod contractwr wedi codi'r arwydd, a chafodd yr arwydd ei dynnu i lawr yn syth, a hysbyswyd y contractwr am y gofynion i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg.	Ymatebodd CyG gan ddweud eu bod yn fodlon â'r camau a weithredwyd.	<b>Cwblhawyd</b> Nid oes angen ymchwilio na gweithredu ymhellach
CSG499	Ymateb Saesneg i e-bost Cymraeg	22/03/2019	Anfonwyd tystiolaeth i gadarnhau bod yr e-bost Marchnata Cymraeg wedi'i anfon at un o swyddogion y Cyngor sy'n siarad Saesneg yn unig. Defnyddiodd y swyddog yr e-bost hwnnw i ateb ynghylch mater gwahanol yn Saesneg	Disgwylir ymateb gan CyA	<b>Parhaus</b>
CSG504	Llenwyd ffurflen Gymraeg ond cafwyd ymateb Saesneg	15/02/2019	Ni chafwyd cais am ragor o dystiolaeth	Mae CyG eisoes wedi ystyried cwyn tebyg, ni ymchwilir ymhellach i'r mater	<b>Cwblhawyd</b> Nid oes angen ymchwilio ymhellach,

					rhoddwyd sylw i'r argymhelliad a gweithredwyd mewn ymateb iddo.
CSG521	Materion yn ymwneud ag ymweliad i siarad yng nghyfarfod y Cabient yn erbyn cau ysgol	22/3/2019	Anfonwyd llythyr tystiolaeth yn cadarnhau nad yw'r Cyngor yn cytuno â'r gŵyn a godwyd oherwydd y rhesymau a nodwyd	Disgwylir ymateb gan CyA	<b>Parhaus</b>

Allwedd: CA – Cyngor Abertawe, CyG – Comisiynydd y Gymraeg